TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC  Diploma Estynedig Cenedlaethol mewn Peirianneg (Trydanol) Lefel 3



**Yn gryno**

Os ydych chi'n ansicr ar hyn o bryd a hoffech chi gael prentisiaeth nawr, neu fynd ymlaen i astudio lefel Prifysgol, neu o bosibl ennill prentisiaeth yn ddiweddarach ar ôl ennill rhai sgiliau ychwanegol, dyma'r cwrs i chi.

Byddwch yn dysgu sgiliau peirianneg drydanol ac electronig trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn gadael yr ysgol gyda graddau TGAU da

... Ydych eisiau dilyn llwybr gwahanol i’r llwybr Safon Uwch traddodiadol

... Ydych yn dymuno mynd i’r brifysgol neu ddilyn prentisiaeth

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn astudio unedau a fydd yn cynnwys:

Uned 1 Egwyddorion Peirianneg
Uned 2 Cyfathrebu/Iechyd a Diogelwch/CAD
Uned 3 Dylunio Cynnyrch Peirianneg
Uned 4 Ansawdd Masnachol Cymhwysol
Uned 15 Peiriannau Trydanol
Uned 19 Dyfeisiau a Chylchedau Electronig
Uned 22 Gweithgynhyrchu Bwrdd Cylchedau Argraffedig Electronig

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau, adroddiadau, profion byr, gwaith ymarferol a gwaith portffolio. Bydd pob aseiniad yn cynnwys gwahanol dasgau a gaiff eu graddio fel Pasio, Teilyngdod neu Ragoriaeth. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianneg Drydanol neu Electronig (180 credyd)

Gweithgareddau Sgiliau (i'ch helpu i symud yn eich blaen at waith)

Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych Radd C mewn Mathemateg a Saesneg TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, byddwch angen fan leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg Gradd B a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar o leiaf Gradd Teilyngdod a TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch.

Bydd gennych ddealltwriaeth dda o Fathemateg a Gwyddoniaeth a byddwch yn mwynhau datrys problemau cymhleth yn ymwneud â dylunio cylchedau, adeiladu a diagnosio diffygion.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Bydd angen ichi allu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, a disgwylir ichi gadw at god ymddygiad y coleg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallwch astudio Peirianneg Drydanol/Electronig ar lefel prifysgol neu gwblhau prentisiaeth yn y sector hwn. Fel arall, gallwch ystyried swyddi sy'n arbenigo yn y math hwn o beirianneg.